# Gwobrau HPMA Cymru 2024

## Meini Prawf Gwobrau









**HPMA Cymru**
www.hpma.org.uk/cymru

**GYDA CHI, DROSOCH CHI**
Datblygu Iechyd Trwy Bobl

# Categorïau Gwobrau


1) Arloesi..........3

2) Rhagoriaeth mewn Datblygu Sefydliadol..........4

3) Gweithio mewn Partneriaeth Rhwng Cyflogwyr ac Undebau Llafur..........5

4) Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant..........6

5) Dadansoddi'r Gweithlu..........7

6) Llesiant..........8

7) Seren y Dyfodol..........9

8) Tîm y Flwyddyn..........10

9) Y Gymraeg..........11

10) Ymgysylltu â Gweithwyr..........12

11) Cynllunio a Datblygu'r Gweithlu..........13

12) Gweithio'n Gallach..........14

13) Tîm Recriwtio'r Flwyddyn..........15

14) Gweithio Traws-Sector..........16


## Gwybodaeth bwysig

Mae ffurflenni enwebu ar gyfer ceisiadau i'w gweld yma.
Sylwch mai'r dyddiad cau ar gyfer derbyn pob cais yw **9am, ddydd Llun 15 Ebrill 2024.**

## 1) Arolesi

Menter arloesol a chreadigol o fewn unrhyw faes adnoddau dynol, datblygu sefydliadol neu reoli'r gweithlu sydd wedi arwain at arfer gwell.

**Meini Prawf**

- Tystiolaeth o arloesi gwirioneddol, nid dim ond ffyrdd newydd o weithio neu o weithredu polisi
- Arddangos yr angen a'r rhesymeg yn glir
- Tystiolaeth bod yr arloesi'n gwneud gwahaniaeth i ofal cleifion/cleientiaid
- Potensial ar gyfer trosglwyddo dysgu i sefydliadau eraill.

C1) Disgrifiwch eich prosiect, gan gynnwys tystiolaeth o sut mae eich prosiect yn arddangos arloesi (200 gair neu lai)

C2) Amlinellwch gynllun y prosiect, yr angen busnes a'r rhesymeg sy'n cefnogi strategaeth eich prosiect dewisol (200 gair neu lai)

C3) Beth yw'r cyflawniadau mesuradwy, y buddion ac effaith disgwyliedig eich prosiect ar ofal cleifion (400 gair neu lai)? Mae'r beirniaid yn chwilio am fetrigau ansoddol a/neu feintiol sy'n dangos effaith eich prosiect

C4) Beth yw'r potensial i ddysgu gan y prosiect hwn, a beth yw'r ffordd orau o rannu'r hyn a ddysgir? (300 gair neu lai).

## 2) Rhagoriaeth mewn Datblygu Sefydliadol

Menter neu brosiect datblygu sefydliadol sydd wedi bod o fudd sylweddol i'r sefydliad drwy wella effeithiolrwydd neu hyfywedd.

**Meini prawf**

- Strategaeth arloesol sy'n mynd i'r afael ag angen busnes pwysig
- Naratif sy'n dangos sut y gweithredwyd ar y strategaeth a'r broses o roi'r strategaeth ar waith yn llwyddiannus
- Tystiolaeth o sgiliau arwain da a gwaith tîm rhagorol
- Gwerthusiad trylwyr o effaith y prosiect, lle mae gwersi adnabyddadwy wedi'u dysgu.

C1) Disgrifiwch eich menter neu strategaeth, gan ddarparu tystiolaeth i ddangos sut mae'n mynd i'r afael ag angen busnes mewn ffordd arloesol (400 gair neu lai)

C2) Disgrifiwch eich taith o weithredu i lwyddiant (400 gair neu lai)

C3) Sut mae eich prosiect yn dangos sgiliau arwain a gweithio mewn tîm (200 gair neu lai)?

C4) Beth yw eich mewnwelediadau allweddol o'r prosiect hwn? Sut mae eich dull gweithredu wedi herio neu wella perfformiad a diwylliant y sefydliad? (300 gair neu lai).

## 3) Gweithio mewn Partneriaeth Rhwng Cyflogwyr ac Undebau Llafur

Rhoddir y wobr hon i fenter sy'n dangos yn llawn y buddion o weithio mewn partneriaeth wirioneddol rhwng cyflogwyr ac undebau llafur wrth ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol.

**Meini prawf**

- Disgrifiad o sut y daeth y fenter i fodolaeth, gan ddangos gwaith partneriaeth gwirioneddol rhwng cyflogwyr ac undebau llafur o'r cychwyn cyntaf
- Gwybodaeth am y broses cynllunio a gweithredu, gan gynnwys unrhyw heriau a sut y cawsant eu goresgyn
- Manylion am sut y bu'r cyflogwyr a'r undebau llafur yn gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth – nid cydweithredu yn unig
- Gwerthuso effaith y prosiect.

C1) Disgrifiwch sut y daeth eich menter i fodolaeth, gan gynnwys sut roedd undebau llafur yn cymryd rhan o'r cychwyn cyntaf (200 gair neu lai)

C2) Amlinellwch yr hyn a wnaethoch chi, gan gynnwys sut y goresgynnwyd unrhyw heriau (200 gair neu lai)

C3) Eglurwch sut y gwnaeth cyflogwyr ac undebau llafur, ac unrhyw sefydliad neu grŵp perthnasol arall, weithio mewn partneriaeth yn llwyddiannus ar y prosiect hwn (200 gair neu lai)

C4) Beth mae'r prosiect wedi'i gyflawni neu beth yw'r buddion disgwyliedig (200 gair neu lai)? Mae'r beirniaid yn chwilio am ystadegau ansoddol a/neu feintiol sy'n dangos effaith eich prosiect.

## 4) Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae’n cael ei ddyfarnu i sefydliad sydd wedi gwella amrywiaeth drwy brosiect neu fenter ac sy’n gallu dangos effaith ar ymgysylltu â staff, llywodraethu, recriwtio a/neu ddyrchafu.

**Meini prawf**

- Asesiad clir o ddiffygion amrywiaeth yn y sefydliad
- Tystiolaeth bod y fenter neu’r prosiect o fudd nid yn unig i’r sefydliad ond i staff hefyd
- Nodi’r mesuriadau a ddefnyddiwyd i ddadansoddi llwyddiant neu fethiant amrywiaeth yn y sefydliad.

C1) Nodwch y trafodaethau a’r ysgogiadau arwyddocaol a arweiniodd at greu’r prosiect neu’r fenter (300 gair neu lai)

C2) Sut cafodd y diffygion o ran amrywiaeth yn eich sefydliad eu hasesu? (200 gair neu lai)

C3) Darparwch dystiolaeth o’r newidiadau a wnaed o fewn y sefydliad i greu mwy o amrywiaeth o ran llywodraethu, ymgysylltu â staff, recriwtio a/neu ddyrchafu (400 gair neu lai)

C4) Pa fesuriadau a ddefnyddiwyd i amlygu a meintioli amrywiaeth yn y sefydliad er mwyn asesu llwyddiant? (300 gair neu lai).

## 5) Dadansoddeg y Gweithlu

Mae'r categori hwn yn cydnabod sut mae dadansoddi data'r gweithlu yn rhoi mewnweledidiad, sy'n creu camau gweithredu, gan arwain at wneud gwell penderfyniadau a sicrhau gwell perfformiad busnes. Peidiwch â chael eich dychryn gan y term 'dadansoddeg', nid ydym yn chwilio am brosiectau data mawr gydag offer cymhleth a buddsoddiad enfawr yn unig. Gallai eich prosiect fod wedi rhoi mewnweledidiad perfformiad drwy ddarparu ffordd newydd o edrych ar ddata allweddol, o gasglu'r data neu eu defnyddio mewn ffordd newydd.

**Meini prawf**

- Alinio'r prosiect dadansoddeg â'r amcanion busnes
- Eglurder ar effaith y prosiect, a defnyddio ddata ansoddol a/neu feintiol
- Goresgyn y rhwystrau i gasglu a dadansoddi data
- Tystiolaeth o well penderfyniadau a chynnydd mewn perfformiad o ganlyniad i ddadansoddiad newydd.

C1) Cyflwynwch eich prosiect (300 gair neu lai). Gallwch gynnwys cefndir y prosiect, ysgogwyr allweddol ar gyfer cychwyn eich prosiect a sylfaen ar gyfer y metrigau allweddol a ddefnyddiwyd cyn cychwyn y prosiect

C2) Eglurwch pam y gwnaethoch chi ddatblygu'r dull hwn a'r canlyniadau roeddech yn chwilio amdanynt (300 gair neu lai). Bydd y beirniaid yn chwilio am sut mae eich prosiect yn cyd-fynd â'ch amcanion busnes

C3) Disgrifiwch sut y cyflawnoch eich cynllun prosiect, gan gynnwys manylion am sut a beth wnaethoch chi ei fesur (300 gair neu lai). Bydd y beirniaid yn chwilio am ddull rhesymegol. Ceisiwch fod yn glir ynghylch y data a gasglwyd gennych neu'r arloesi a gymhwyswyd gennych. Dylech gynnwys sut rydych wedi goresgyn un rhyw rwystrau i gasglu a dadansoddi data neu gyflwyno a gwreiddio'r arloesi

C4) Beth yw eich prif fewnwelediadau o'r prosiect hwn (300 gair neu lai)? Efallai y byddwch yn esbonio sut mae eich prosiect wedi herio profiad a greddf gan roi sylw i'r hyn y gall eraill ei ddysgu ohono.

## 6) Llesiant

Mae'r wobr hon yn cydnabod sefydliadau sy'n gallu dangos sut mae mentrau iechyd, ffitrwydd neu lesiant gweithwyr penodol yn cael effaith gadarnhaol ar foddhad, cymhelliant, iechyd neu gynhyrchiant staff.

**Meini prawf**

- Strategaeth/prosiect neu fenter llesiant effeithiol ac arloesol sy'n mynd i'r afael ag angen busnes pwysig
- Naratif clir sy'n dangos pam y cafodd ei weithredu
- Tystiolaeth o lwyddiant: e.e. adenillion o fuddsoddi a sut mae wedi cryfhau'r sefydliad – gallwch ddefnyddio metrigau, anecdotau, adborth staff ac astudiaethau achos.

C1) Disgrifiwch eich menter neu brosiect, gan gynnwys y cefndir, rhesymeg a chyd-destun ehangach (400 gair neu lai)

C2) Eglurwch pam y gwnaethoch chi ddatblygu'r dull hwn a'r canlyniadau roeddech yn chwilio amdanynt (300 gair neu lai)

C3) Beth yw cyflawniadau mesuradwy, buddion ac effaith disgwyliedig eich prosiect ar ofal cleifion ac ansawdd gofal iechyd? (400 gair neu lai)

C4) Beth yw eich mewnwelediadau allweddol o'r prosiect hwn? Gallwch egluro buddion y prosiect, yr heriau a'r dysgu i eraill (400 gair neu lai).

## 7) Seren y Dyfodol

Mae hon yn wobr ar gyfer seren sy'n dod i'r amlwg yn eich sefydliad. Bydd y person hwn yn ymgorffori gwerthoedd eich sefydliad ac yn mynd yr ail filltir o fewn y gweithlu. Mae'r wobr hon yn cydnabod yr ymarferwyr hynny yn y gweithlu sy'n gwneud eu gwaith yn arbennig o dda. Dylai'r enwebai fod yn is na lefel y dirprwy gyfarwyddwr neu gyfwerth ac nid oes band lleiaf. Rydyn ni eisiau clywed am y sêr anhygoel sy'n dod i'r amlwg sy'n gweithio ar draws gweithlu GIG Cymru, o'n cydweithwyr iau i'r rhai hŷn.

Gall enwebeion enwebu eu hunain neu gael eu henwebu gan uwch reolwr.
Nid oes unrhyw gwestiynau yn berthnasol i'r wobr hon ond dylai enwebeion fodloni'r meini prawf canlynol:

**Meini prawf**

- Effaith - yn gwneud cyfraniad gwirioneddol i'r sefydliad a'r gweithlu ehangach
- Perfformiad - yn dangos perfformiad eithriadol parhaus sy'n rhagori ar ddisgwyliadau'n gyson.
- Arweinyddiaeth - yn dangos gallu i arwain
- Ymrwymiad - yn angerddol dros broffesiwn y gweithlu
- Arloesi - ar y blaen o ran syniadau ac arferion
- Hygrededd - yn dangos hygrededd personol yn y sefydliad ac yng nghymuned y gweithlu.

Ni ddylai enwebiadau fod yn hwy na 1,500 o eiriau.

C1) Rheswm dros enwebu:

## 8) Tîm y Flwyddyn

Wedi'i ddyfarnu i dîm gweithlu GIG Cymru sy'n gweithio gyda'i gilydd ac wedi cyflawni pethau eithriadol dros y 12 mis diwethaf.

**Meini prawf**

- Tystiolaeth o gefnogaeth iechyd a llesiant a diogelwch o safon i'r tîm
- Tystiolaeth o feithrin ymdeimlad o berthyn o fewn eu tîm. Mae gan bob aelod o'r tîm lais sy'n bwysig
- Tystiolaeth o ddefnydd effeithiol o sgiliau a phrofiad aelodau'r tîm
- Tystiolaeth o ddull gweithredu sy'n helpu'r tîm i dyfu, a hyblygrwydd
- Perfformiad eithriadol ac effaith ar brofiad y timoedd ar y rheng flaen a darpariaeth gwasanaethau
- Tystiolaeth o ragoriaeth wrth weithio mewn tîm ac o berthnasoedd cydlynol
- Gwerthuso ac asesu trylwyr ac adborth eithriadol ar y gwasanaeth
- Gall y cais gynnwys prosiectau penodol a dangos agwedd gydweithredol y swyddogaeth a'i gallu i ddenu a datblygu pobl ragorol.

C1) Disgrifiwch gyfansoddiad y tîm, ffyrdd o weithio a'r cyd-destun sefydliadol (200 gair neu lai)

C2) Rhowch enghreifftiau o ragoriaeth dechnegol, dull arloesol, neu waith creadigol sydd wedi galluogi'r tîm i gyrraedd lefelau perfformiad eithriadol a darparu gwasanaeth rhagorol. (500 gair neu lai)

C3) Sut mae eich tîm yn dangos sgiliau arwain da a gwaith tîm rhagorol? (200 gair neu lai)

C4) Sut mae'r tîm wedi cyfrannu at fesur a chyflawni amcanion corfforaethol? (200 gair neu lai)

C5) Disgrifiwch y gwerthusiad a'r asesiad o'ch tîm, a'r adborth a dderbyniwyd. (200 gair neu lai).

## 9) Y Gymraeg

Mae hon yn wobr ar gyfer tîm, prosiect neu fenter sydd wedi hybu a/neu ymgorffori'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y sefydliad.

**Meini prawf**

- Disgrifiad clir o sut mae'r tîm, prosiect neu fenter wedi ymgorffori'r Gymraeg
- Y broses gynllunio a gweithredu gan gynnwys unrhyw heriau a sut y cawsant eu goresgyn
- Tystiolaeth o ymgysylltiad gan staff ar bob lefel
- Dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd diwallu anghenion o ran y Gymraeg a'r effaith y gall hyn ei chael ar ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel, profiad cadarnhaol i'r claf ac effaith ar y gweithlu.

C1) Cyflwynwch y prosiect neu fenter (300 gair neu lai). Gallwch gynnwys cefndir y prosiect, ysgogwyr allweddol, ac unrhyw gyd-destun ehangach

C2) Eglurwch pam y gwnaethoch chi ddatblygu'r dull hwn a sut mae'n bodloni anghenion o ran y Gymraeg (300 gair neu lai)

C3) Eglurwch sut y gwnaethoch ymgysylltu â staff ar bob lefel er mwyn diwallu anghenion y prosiect neu'r fenter hon (200 gair)

C4) Beth yw'r cyflawniadau mesuradwy, y buddion ac effaith disgwyliedig ar ofal claf/cleient/gweithlu eich prosiect a/neu fenter? (400 gair)

C5) Beth yw'r effaith barhaus a'r dysgu parhaus o'r prosiect/menter hwn? (300 gair).

## 10) Ymgysylltu â Gweithwyr

Yn cael ei ddyfarnu i sefydliad sydd wedi gwella gofal cleifion yn sylweddol ac sydd â gweithlu hapusach, mwy cymhellol a mwy cynhyrchiol trwy ymgysylltu â staff yn well.

**Meini prawf**

- Tystiolaeth o ddull systematig yn cael effaith ar draws y sefydliad gyda chefnogaeth o frig y sefydliad
- Tystiolaeth o ymgysylltu â staff
- Tystiolaeth o'r buddion mesuradwy rhwng ymyriadau'r prosiect, ymgysylltu â staff a gofal gwell i gleifion
- Tystiolaeth o ddull sy'n gynaliadwy ac sy'n cyfrannu at newid diwylliant y sefydliad.

C1) Amlinellwch ddyluniad eich prosiect ar gyfer ymgysylltu â chyflogeion. Mae'r beirniaid yn chwilio am dystiolaeth o ddull systematig (400 gair neu lai)

C2) Disgrifiwch sut mae eich prosiect wedi gwella ymgysylltu â staff, gan gynnwys y rhesymeg dros eich dull a threfniadaeth y sefydliad ar y dechrau (400 gair neu lai)

C3) Beth yw buddion mesuradwy eich ymyriadau a'ch dull gweithredu, yn benodol o ran ymgysylltu â staff a gwella gofal i gleifion? Mae'r beirniaid yn chwilio am ystadegau ansoddol a/neu feintiol sy'n dangos effaith eich prosiect. (400 gair neu lai)

C4) Disgrifiwch sut mae eich prosiect yn gynaliadwy, ac yn cyfrannu at newid diwylliant ehangach (300 gair neu lai).

## 11) Cynllunio a Datblygu'r Gweithlu

Gyda'r categori hwn rydym yn bwriadu nodi prosiectau a thimau sy'n arwain dulliau arloesol o gynllunio systemau'r gweithlu, datblygu cynlluniau'r gweithlu yn seiliedig ar gynllunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion iechyd y boblogaeth a datblygu gweithlu a all ddarparu iechyd a gofal ar sail system gyfan.

**Meini prawf**

- Yn ystyried anghenion y sector iechyd a gofal cyfan a'i weithlu wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol, gan ddefnyddio dull 'un gweithlu' ar draws y GIG, gofal sylfaenol, gofal cymdeithasol a'r sectorau gwirfoddol, annibynnol ac elusennol
- Tystiolaeth o lywodraethu a seilwaith sy'n datblygu sy'n galluogi cynlluniau'r gweithlu i alinio â chynllunio gwasanaethau a chyllid lleol
- Tystiolaeth o effaith, ffyrdd newydd o weithio a thyfu'r gweithlu
- Tystiolaeth o ddefnyddio cynlluniau'r gweithlu i helpu i siapio anghenion addysg a hyfforddiant, recriwtio a chadw a thrawsnewid y gweithlu.

C1) Amlinellwch gynllun eich prosiect a sut yr ydych wedi ystyried anghenion y system iechyd a gofal gyfan a'i gweithlu wrth gynllunio (400 gair neu lai)

C2) Eglurwch sut rydych wedi cymryd camau i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio a thyfu'r gweithlu (300 gair neu lai)

C3) Disgrifiwch sut rydych wedi defnyddio cynlluniau'r gweithlu i helpu i lywio addysg a hyfforddiant, recriwtio a chadw a thrawsnewid y gweithlu (400 gair neu lai)

C4) Amlinellwch sut rydych wedi datblygu llywodraethu a seilwaith i alluogi cynlluniau'r gweithlu sy'n cyd-fynd â chynllunio gwasanaethau a chyllid lleol (300 gair neu lai).

## 12) Gweithio'n Gallach

Mae'r wobr hon yn edrych am brosiectau, rhaglenni neu fentrau sy'n dangos sut mae timau'r gweithlu wedi gweithio'n 'gallach', i arbed arian wrth ddal i wella ansawdd, diogelwch a gofal cleifion. Gallai fod yn ddefnydd o dechnoleg, yn newid yn strategaeth y gweithlu neu ddatblygu modelau gofal newydd.

Rydym yn chwilio am fentrau trosglwyddadwy iawn sy'n mynd i'r afael â'r angen ym mhob tîm gweithlu gofal iechyd ledled y DU i wella effeithlonrwydd a lleihau costau.

**Meini prawf**

- Disgrifiad clir o'r cefndir gan gynnwys y rhesymeg, y cyd-destun, y camau cynllunio a'r camau gweithredu
- Arbedion ariannol a gwelliannau effeithlonrwydd, wrth wella ansawdd, diogelwch a gofal i gleifion
- Gwerthusiad trylwyr o effaith y prosiect, lle mae gwersi adnabyddadwy wedi'u dysgu
- Menter hynod drosglwyddadwy a chynaliadwy.

C1) Disgrifiwch eich menter (ei dyluniad a'i chamau gweithredu), gan gynnwys y cefndir, y rhesymeg a'r cyd-destun ehangach (400 gair neu lai)

C2) Beth yw cyflawniadau, buddion ac effaith mesuradwy a disgwyliedig eich menter (400 gair neu lai)? Mae'r beirniaid yn chwilio am fetrigau ansoddol a/neu feintiol sy'n dangos effaith eich prosiect

C3) Beth yw eich mewnwelediadau allweddol o'r prosiect hwn? Efallai y byddwch yn esbonio sut mae profiad a greddf wedi'u herio gan eich prosiect a thrafod dysgu posibl i eraill. (300 gair neu lai)

C4) Disgrifiwch sut mae eich menter yn hynod drosglwyddadwy a chynaliadwy. (300 gair neu lai).

## 13) Tîm Recriwtio'r Flwyddyn

Gyda'r wobr hon, rydym am gydnabod y timau recriwtio gorau sy'n gweithio ym maes gofal iechyd. Bydd y cynigion yn dangos gwreiddioldeb a chreadigrwydd, cydweithio a gwaith tîm a thystiolaeth o effeithiolrwydd wrth gwrdd â her recriwtio benodol.

Bydd timau'n cael eu hasesu ar eu harloesi, eu strategaeth a'u cynllunio, rheoli prosesau, ymgysylltu ag ymgeiswyr a'u defnydd o dechnoleg i gyflawni canlyniad llwyddiannus. Mae'n hanfodol bod timau'n darparu tystiolaeth ategol gyda metrigau perthnasol sy'n dangos sut y cafodd y canlyniad ei fesur. Rhaid cael amcanion clir a chanlyniadau mesuradwy. Dylai cyflawniadau'r tîm fod y tu hwnt i weithgareddau arferol, a dylent fod yn newydd neu'n unigryw o fewn y sefydliad.

**Meini prawf**

- Rhesymeg glir y tu ôl i'r strategaeth a'r canlyniadau a ragwelir
- Manylion y cynllun, aelodau'r tîm a'u cyfrifoldebau, ac unrhyw angen i gydweithio
- Effaith y strategaeth neu'r fenter ar y sefydliadau gan gynnwys arbedion cost
- Yr heriau a wynebwyd a sut y cawsant eu goresgyn e.e. ad-drefnu, datrysiadau
- Cynaliadwyedd, trosglwyddedd a gwersi a ddysgwyd.

C1) Disgrifiwch eich tîm a'ch her recriwtio. Dylech gynnwys eich partneriaid asiantaeth lle bo'n berthnasol. (300 gair neu lai)

C2) Amlinellwch eich strategaeth a sut y cafodd ei gweithredu (300 gair neu lai)

C3) Disgrifiwch sut mae eich strategaeth recriwtio wedi cael ei gwerthuso, gan ddefnyddio metrigau i gymhwyso eich llwyddiant, eich adenillion o fuddsoddi a'i heffaith (400 gair neu lai)

C4) Disgrifiwch unrhyw heriau allweddol a wynebwyd gennych a disgrifiwch sut y cawsant eu goresgyn. (300 gair neu lai)

## 14) Gweithio Traws-Sector

Yn gynyddol, nid yw datrysiadau yn cael eu datblygu na'u darparu gan un sector yn unig. Mae angen cydweithredu traws-sector i wneud hyn. Mae'r wobr hon ar gyfer prosiect, cynnyrch neu wasanaeth ar draws sectorau, is-adrannau a thimau sydd wedi cael effaith fesuradwy ac wedi sicrhau canlyniadau gwirioneddol i gleientiaid neu gwsmeriaid y gwasanaeth iechyd.

**Meini prawf**

- Disgrifiad clir o'r cefndir gan gynnwys y rhesymeg, y cyd-destun, y camau cynllunio a'r camau gweithredu gan ddangos buddion gweithio traws-sector
- Manylion clir am sut y daethpwyd â phartïon at ei gilydd
- Yr heriau a sut y cawsant eu goresgyn
- Gwerthusiad o effaith y prosiect.

C1) Disgrifiwch eich prosiect, gan gynnwys cefndir y prosiect, y rhesymeg a'r cyd-destun ehangach. (300 gair neu lai)

C2) Eglurwch sut y daethpwyd â phartïon at ei gilydd ar gyfer y prosiect hwn (200 gair neu lai)

C3) Beth oedd yr heriau, a sut cawsant eu goresgyn? (200 gair neu lai)

C4) Beth yw cyflawniadau mesuradwy, buddion disgwyliedig ac effaith eich prosiect ar ofal cleifion? (400 gair neu lai) Mae'r beirniaid yn chwilio am ystadegau ansoddol a/neu feintiol sy'n dangos effaith eich prosiect.